SSCE CYMRU – SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES – CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

# BWLETIN YSGOL MISOL – Gorffennaf 2023

## Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol (Dwyrain Cymru)



*"Mae wedi bod yn fisoedd prysur gyda chymaint o ddigwyddiadau gwych yn cael eu cynnal a llawer i'w ddathlu. Fis diwethaf fe wnaethom ddathlu Wythnos / Diwrnod y Lluoedd Arfog ac roedd yn wych gweld ysgolion yn cymryd rhan ac yn dangos eu gwerthfawrogiad o Gymuned y Lluoedd Arfog. Cynhaliwyd digwyddiad Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog gan Gyngor Dinas Casnewydd ac roedd yn ddiwrnod ffantastig, gyda chymaint ar gael i deuluoedd ei fwynhau. Rydym fethu aros am ddigwyddiad y flwyddyn nesaf yn Abertawe! Wrth i ddiwedd y tymor agosáu, hoffwn ddweud cymaint yr ydym yn gwerthfawrogi'r gwaith y mae ysgolion yn ei wneud i gefnogi plant y Lluoedd Arfog ac rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio gyda chi yn y flwyddyn academaidd newydd."* **Emilee, Emilee.Kinsey@newport.gov.uk**

## Swyddog Arweiniol Cyfranogiad



*"Wrth i ni nesáu at ddiwedd blwyddyn academaidd arall, rwy'n ddiolchgar am yr amser rwyf wedi'i dreulio gyda rhai o'n Llysgenhadon Plant y Lluoedd Arfog yn ystod y tymor diwethaf. Diolch i Ysgol Gynradd Cwmclydach a'u Llysgenhadon gwych Mason, Alfie, George a Gracie, a gynigiodd yn garedig i'm helpu gyda phrosiect. Roedd yn bleser cyfarfod â chi i gyd. Rydych chi'n glod i'ch ysgol a'ch rhieni. Diolch hefyd i un arall o'n Llysgenhadon newydd, Caitlin o MPCT am gymryd yr amser i rannu ei phrofiadau o fod yn blentyn Lluoedd Arfog / person ifanc gyda mi. Mae cryfder eich cymeriad a'ch gwytnwch yn ysbrydoledig ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda chi i rannu eich stori dros y misoedd nesaf. Mwynhewch yr Haf bawb a gwelech chi ym mis Medi."* **Jo, Joanna.wolfe@wlga.gov.uk**

## YSGOLION SY'N CEFNOGI'R LLUOEDD ARFOG

**Llongyfarchiadau** i'r holl ysgolion sydd wedi cyflawni eu statws Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru eleni. Hyd yn hyn, mae 13 ysgol wedi cyflawni eu statws Efydd, mae dwy wedi cyflawni Arian ac mae un wedi cyflawni Aur!!!

**Rhagor o wybodaeth yma**

## HYFFORDDIANT

YN DOD YN FUAN... eDdysgu SSCE

## GWOBRAU PLANT MILWYR CYMRU 2023

**Categorïau enwebu:**

- Cyfraniad at Chwaraeon
- Llysgennad Plentyn Milwrol y Flwyddyn
- Gwobr Gymunedol
- Gwobr Arwr Tawel

**Dyddiad cau ar gyfer enwebiadau: 14eg Medi**

**Gweler mwy o wybodaeth ac enwebu yma**

## DIGWYDDIADAU I DDOD

**Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog: 'Force for Change'**

Dyddiad cau ceisiadau: 17eg Gorffennaf a 13eg Rhagfyr 2023.

**Rhagor o wybodaeth yma**

## CEFNOGAETH / CYLLID

**Llywodraeth Cymru - Cronfa Cefnogi Plant y Lluoedd Arfog mewn Addysg yng Nghymru**

Yn 2023/24, bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru yn gallu gwneud cais am gyllid drwy gydol y flwyddyn, i gyflwyno prosiectau sy'n benodol i gefnogi plant Milwyr mewn addysg, sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm yng Nghymru. *Bydd rhagor o wybodaeth ar gael ym mis Medi 2023.*

Brosiectau £1,000 – sy'n agored i bob Awdurdod Lleol ac ysgol yng Nghymru.

Brosiectau £5,000 – yn agored i bob Awdurdod Lleol ac ysgol sydd wedi cyflawni statws Efydd Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru.

Bydd cyllid Rheoli Achosion yn parhau i fod ar gael.